

Papurau'r Arglwydd Goronwy-Roberts

Roedd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn arbennig o falch o dderbyn oddi wrth y Fonesig Marian Goronwy-Roberts yn ystod mis Chwefror 2003 grŵp sylweddol o bapurau gwleidyddol a phersonol ei gŵr Goronwy O. Roberts, yr Arglwydd Goronwy-Roberts (1913-81), Aelod Seneddol Llafur Sir Gaernarfon o 1945 hyd 1974.

Ac yntau'n frodor o Fethesda, cafodd Goronwy Roberts yrfa academaidd eithriadol ddisglair yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, lle roedd yn un o sylfaenwyr y mudiad

gwladgarol Gwerin. Gan fabwysiadu polisïau tra cenedlaetholgar, cipiodd Sir Gaernarfon ym 1945 gan orchfygu'r Uwchgaptan Goronwy Owen, A. S. Rhyddfrydol y sir ers 1923. Fel Cymro brwdfrydig, gwlatgar drwy gydol ei fywyd, cefnogodd bolisïau o blaid datganoli yn ystod llywodraethau Attlee ar ôl y rhyfel.

Roedd Goronwy Roberts yn un o arweinwyr amlycaf mudiad Senedd i Gymru yn ystod y pumdegau cynnar ac efe oedd yn bersonol gyfrifol am gyflwyno'r ddeiseb i'r senedd ym mis Mai 1956. Pan sefydlwyd y Swyddfa Gymreig arfaethedig ym 1964, penodwyd ef yn un o'i gweinidogion seneddol cyntaf. Yn ddiweddarach gwasanaethodd o fewn yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, y Swyddfa Dramor a'r Bwrdd Masnach.

Yn dilyn colli ei sedd yn Sir Gaernarfon yn Chwefror 1974, gwnaethpwyd ef yn arglwydd ar unwaith a gwasanaethodd yn lled anrhydeddus yn y Swyddfa Dramor o dan George Brown yn ystod llywodraethau Wilson a Callaghan. Bu hefyd yn Ddirprwy Arweinydd Tŷ'r Arglwyddi o 1975 hyd 1979. Bu farw'n gynamserol yn 67 oed ym mis Gorffennaf 1981.

Gobeithir gorffen trefnu a rhestri'r papurau yn y dyfodol agos. Rhannwyd hwy yn bedair cyfres tra'n catalogio: Dosbarth C (Gohebiaeth), Dosbarth S (Ffeiliau pwnc), Dosbarth P (Papurau personol) a Dosbarth Z (Deunydd printiedig a theipysgrif). Mae'r papurau yn gymar naturiol i nifer o archifau gwleidyddol eraill sydd eisoes yn eiddo i'r Llyfrgell a byddant yn ddi-os yn ffynhonnell o werth parhaol i haneswyr gwleidyddol.



Goronwy O. Roberts ym 1967

Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Darlith Flynyddol 2003

Ron Davies
'Reflections'

Yr Hen Goleg, Aberystwyth
5.30pm Gwener, 7 Tachwedd

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi, ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; a thâpiau rhaglenni radio a theledu.

Aelodau o'r pwyllgor ymgyngorol:

Mr Andrew Green (Llyfgellydd),
Dr Denis Balsom, Mr Ian Barton,
Yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe,
Miss Beata Brookes, Mr Alun Burge,
Mr Cynog Dafis, Mr Darron Dupré,
Mr Aled Eirug, Mr Tom Ellis,
Mr Rhys Evans, Mr Gwyn Griffiths,
Mr Adam Higgitt, Yr Athro Deian
Hopkin, Yr Athro Aled G Jones,
Mr D Elwyn Jones, Mr D L Jones,
Dr Richard Wyn Jones, Mr David
Melding AC, Yr Arglwydd Morgan
o Aberdyfi, Mrs Julie Morgan AS, Yr
Athro Emeritws D Hywel E Roberts,
Yr Athro Duncan Tanner, Dr Guto
Thomas a phedwar aelod o staff
LIGC.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â
Dr. J. Graham Jones

Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, Ceredigion, Cymru,
SY23 3BU

Tel: 01970 632866

Fax: 01970 632883

[jjgj@llgc.org.uk](mailto:jgj@llgc.org.uk)

www.llgc.org.uk/lc/awg_c_awg.htm

Mrs Beti Jones

Yn ystod mis Hydref 2003 bydd Mrs Beti Jones yn ymddeol o'r Llyfrgell ar ôl blynyddoedd meithion o wasanaeth clodfawr. A hithau'n frodor o Frynman, ymunodd Beti â'r hen Adran Llyfrau Printiedig nôl ym 1963. Rhwng 1978 a 1981 bu'n astudio ar gyfer gradd anrhydedd B. Lib. yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru ac Adran Wleidyddiaeth Coleg Prifysgol Cymru. Bu'n byw yn Bow Street ers nifer fawr o flynyddoedd a theithiodd yn helaeth ar draws y byd.



Beti Jones

Rhodddwyd croeso brwdfrydig i'w chyfeirlyfr gwir arloesol *Etholiadau Seneddol yng Nghymru, 1900-1975* (1977). Roedd olynnydd y gyfrol *Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997* (1999) wedi ei helaethu a'i diweddarau'n sylweddol. Beti hefyd oedd yn gyfrifol am lunio'r cyfeirlyfr defnyddiol dros ben *Newsplan: Adroddiad ar Gynllun Newsplan yng Nghymru* (1993).

Beti oedd yn bennaf gyfrifol am wyntyllu'r syniad y dylid sefydlu *Archif Wleidyddol Gymreig* o fewn LIGC nôl yn y 1980au cynnar. Gwasanaethodd fel aelod blaenllaw o bwyllgor ymgyngorol yr AWG byth ers ei sefydlu ym 1985, a roedd bob amser yn barod i rannu ei gwybodaeth arbenigol gyda'i chydweithwyr a oedd yn gyfrifol am redeg yr Archif. Roedd ei gweledigaeth, ei hymrwymiad a'i brwdfrydedd bob

amser yn hwb i ddatblygiad yr Archif, a gwelir ei heisiau'n fawr yn y dyfodol. Mae pawb sydd yn gysylltiedig â'r AWG yn dymuno iddi ymddeoliad hir, ffrwythlon a dedwydd.

D. Elwyn Jones

Roedd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn drist dros ben i glywed am farwolaeth sydyn Mr D. Elwyn Jones yn ei gartref yn Neganwy yn ystod y gwanwyn ac yntau ond yn 57 mlwydd oed. Am flynyddoedd lawer Mr Jones oedd asiant y Blaid Geidwadol yng ngogledd Cymru ac ef hefyd oedd asiant gwleidyddol Syr Wyn Roberts. Roedd yn aelod o bwyllgor ymgyngorol yr AWG byth ers ei sefydlu yn ystod gwanwyn 1985.

Ac yntau'n frodor o Flaenau Ffestiniog, dechreuodd ymddiddori yng ngwleidyddiaeth ei ardal tra'n fachgen ysgol. Buan iawn anghofiodd am ddod yn weinidog anghydfurfiol er mwyn canolbwyntio ar fywyd gwleidyddol. Er iddo wrthod ceisiadau cyson i sefyll fel ymgeisydd seneddol, mae'n debyg mai Elwyn Jones oedd wyneb a llais mwyaf cyfarwydd y Blaid Geidwadol yng ngogledd Cymru. Cafodd ei gyfrol fachog o atgofion *Y Rebel Mwyaf*, a welodd olau dydd ym 1991, groeso mawr gan y cyhoedd. Yn Chwefror eleni ymunodd â Phlaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig.

Elwyn Jones oedd yr unig aelod i fynychu pob un o'r 34 cyfarfod o bwyllgor ymgyngorol yr AWG. Cyrhaedda'i'n brydlon bob tro a chyfoethog oedd ei gyfraniad unigryw i'r trafodaethau. Roedd bob amser yn barod i gynghori ac annog staff yr AWG. Cyflwynodd nifer fawr o roddion amrywiol, mawr a bach. Pur anaml y deuai i'r Llyfrgell yn waglaw, ac efe oedd yn gyfrifol am gysylltu â nifer o unigolion ar ran yr Archif. Gwelir bwllch yng nghyfarfodydd y dyfodol heb ei bresenoldeb bywiog a rhadlon. Braf yw medru adrodd i Elwyn adael ei bapurau gwleidyddol i'r Llyfrgell yn ei ewyllys.

Etholiadau'r Cynulliad 2003

Diolch i ymdrechion ein rhwydwaith o gysylltiadau ym mhob etholaeth ledled Cymru, rydym wedi llwyddo i gasglu set gyflawn bron o anerchiadau etholiadol, taflenni, posteri a sticeri a ddosbarthwyd yng Nghymru ar gyfer ail etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 1 Mai 2003. Dechreuwyd eisoes ar y gwaith o lunio rhestr gynhwysfawr o'r deunydd hwn. Derbyniwyd deunydd oddi wrth 37 o'r etholaethau yng Nghymru. Byddem yn croesawu'n frwd bapurau o'r tri sy'n weddill – Islwyn, Gorllewin Casnewydd a Gorllewin Abertawe – er mwyn llenwi'r bylchau hyn yn ein daliadau.

Mae swyddfeydd Cymreig y pleidiau gwleidyddol wedi cydweithio'n ddedwydd er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn manifestos a chylchlythyrau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r deunydd hwn oll o ddi-ddordeb arbennig ac yn cyferbynnu â'r deunydd etholiadol a ddaeth i law adeg etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 1999 a'r llenyddiaeth a ddosbarthwyd yng Nghymru yn ystod ymgyrchoedd yr etholiadau cyffredinol.

Diolch i ymdrechion staff yr Is-adran Sustemau, archifwyd gwefannau'r pleidiau gwleidyddol adeg ymgyrchoedd etholiadau'r Cynulliad 2003. Mae hwy hefyd ar gael i'r cyhoedd, a cheir ynddynt fanylion difyr am yr ymgyrchoedd a fyddai fel arall wedi diflannu. Ceir darllediadau teledu a radio a rhaglenni dogfen wrth gwrs o fewn yr Archif Sgrîn a Sain Genedlaethol.

Dechreuwyd hefyd ar y gwaith o lunio rhestr gyfansawdd o'r holl anerchiadau etholiadol a thafenni a oedd yn eiddo i'r Llyfrgell cyn sefydlu'r AWG yng ngwanwyn 1983. Byddem yn croesawu derbyn llenyddiaeth etholiadol o'r cyfnod cyn 1983 er mwyn llenwi'r bylchau niferus sydd yn ein daliadau.

Archifau Gwleidyddol ar Ficroffilm


Dros y blynyddoedd mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi prynu nifer sylweddol o ficroffurfiau cyhoeddedig o archifau'r llywodraeth a chasgliadau gwleidyddol sydd ym meddiant llyfrgelloedd ac archifdai eraill. Yn eu plith mae rhediad cyflawn o Bapurau Cartref y Wladwriaeth, 1509-1782, ynghyd â Phapurau anghyhoeddedig y Wladwriaeth o gyfnod y Rhyfel Cartref a'r Werinlywodraeth, 1641-60. Mae gennym hefyd gopiâu o Gofnodion y Cabined o'r cyfnodau 1880-1916 a 1945-74.

Ymhlith ein daliadau mae copïau microffurf o archifau canolog y Blaid Lafur, 1900-67, y Blaid Lafur Annibynnol, 1856-1975, y Blaid Geidwadol, 1868-1983, y Blaid Ryddfrydol, 1877-1963, a Phlaid Cymru, 1926-90. Mae gennym hefyd gopiâu microffurf o'r casgliad helaeth o anerchiadau etholiadau seneddol sydd yng ngofal Adran Casgliadau Arbennig Llyfrgell Prifysgol Bryste (archif a fu gynt ym meddiant y Clwb Rhyddfrydol Cenedlaethol) ar gyfer y blynyddoedd 1892 hyd 1931.

Prynwyd hefyd gopiâu o gofnodion y Pleidiau Llafur lleol a chynghorau masnach canlynol: Wrecsam, 1885-1952; Pontypridd, 1897-1951; Abertawe, 1902-84; a Chasnewydd, 1912-77. Ar gael hefyd ar ficroffilm ceir papurau helaeth y Prif Weinidog Rhyddfrydol William Ewart Gladstone (1809-98), archifau y mae'r gwreiddiol ohonynt ym meddiant y Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Sant Deiniol, Penarlâg.

Ymhlith microffurfiau cyhoeddedig eraill ceir Pamffledi'n ymdrin â Chenedlaetholdeb yn yr Alban, 1844-1973, archifau Cymdeithas y Ffabiaid (*Fabians*), 1884-1952, cofnodion Cyngres yr Undebau Llafur, 1887-1972, Gwragedd a'r Mudiad Llafur, 1906-77, Gwrthdaro a Chytundeb mewn Cysylltiadau Diwydiannol ym Mhrydain, 1916-48, a chofnod dogfennol o'r Argyfwng yn y Diwydiant Glo a'r Streic Gyffredinol, 1925-26.

Byddem yn croesawu gweld defnydd llawer helaethach o'r adnoddau pwysig hyn gan ymchwilyr ac rydyn yn barod iawn i gynnig cyngor ar bynciau ymchwil addawol.



Taflen etholiad y Democratiaid Rhyddfrydol 2003

Derbyniadau diweddar

Papurau Bert Pearce

Ymhlith yr ychwanegiad diweddaraf at bapurau'r diweddar Bert Pearce (*Welsh Communist Party Papers*), a ddaeth i'r Llyfrgell ym mis Mawrth 2003 yr oedd papurau'n ymwneud â thri o gymeriadau mwyaf lliwgar y mudiad llafur yng Nghymru, sef Edgar Evans, Idris Cox a Dai Dan Evans.

Yn 1936 treuliodd y Cynghorydd Edgar Evans (1900-93), neu 'Edgar yr Ironmonger' fel y'i gelwid, naw mis yn y carchar am y rhan a gymerodd yn y frwydr i sefydlu cangen o'r 'Ffed' yng nglofa Taf Merthyr. Yn yr archif ceir ffotograffau o'r orymdaith a gynhaliwyd o Fedlinog i

Dreharris i brotestio yn erbyn y driniaeth greulon a dderbyniodd Evans ac eraill, ynghyd â thelegram oddi wrth Harry Pollitt i'w groesawu adref o'r carchar.

Yn yr archif hefyd ceir dau hunangofiant teipysgrif nas cyhoeddwyd sy'n adrodd agwedd unigryw ar hanes Comiwnyddiaeth yng Nghymru. Idris Cox (1899-1989) yw awdur 'Story of a Welsh Rebel', a gwaith Dai Dan Evans (1898-1974) yw 'The University of Hard Knocks'.

Erbyn hyn llwyddwyd i orffen rhestrïr archif hon sydd yn rhedeg i 120 o flychau archifol. *NMW*



Gorymdaith 1936 yn pasio pull glo Taf Merthyr ar ei ffordd i Dreharris

TJ ac Eirene

Derbyniodd y Llyfrgell yn ddiweddar grŵp ychwanegol o ddyddiaduron a phapurau'r Dr Thomas Jones CH (1870-1955), Dirprwy Ysgrifennydd y Cabined, 1916-30, ynghyd â ffeil fechan bellach o bapurau ei ferch Y Farwnes White o Rymni (1909-99), AS Llafur Dwyrain Fflint, 1950-70. Bwriedir eu hychwanegu'n fuan at yr archifau sylweddol o'u papurau sydd eisoes yng ngofal y Llyfrgell.

Cofrestrwydd Cyffredinol i Gymru

Bu Mr John Llewelyn, Caerfyrddin, mor garedig â chyflwyno i'r Llyfrgell ffeil ddiddorol o bapurau'n ymdrin â'r ymgyrch yn ystod 1999 i benodi Cofrestrwydd Cyffredinol ar gyfer Cymru. Yn eu plith ceir llythyrau oddi wrth nifer o wleidyddion blaenllaw, rhai ohonynt yn aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae amryw yn cyfeirio at y posibilrwydd o sefydlu Archifdy Cenedlaethol yng Nghymru. Eu cyfeirnod yw NLW ex 2227.

Etholiad 1859

Roedd yr AWG yn falch iawn i'r Llyfrgell fedru prynu'n ddiweddar poster etholiadol a gylchredwyd i gefnogi ymgeisyddiaeth David Williams, Castell Deudraeth, yn etholaeth Sir Feirionnydd adeg etholiad cyffredinol 1859. Ceir papurau eraill yn ymdrin â David Williams eisoes yng ngofal y Llyfrgell.

Gwynfor at Pennar

Yr ychwanegiad diweddaraf at y papurau sylweddol sy'n ymwneud â'r Dr Gwynfor Evans (g. 1912) ym meddiant LIGC yw grŵp o lythyrau diddorol ganddo at y diwinydd enwog y Dr W. T. Pennar Davies (1911-96).

Pwyllgor Cymru yn erbyn Hiliaeth

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn gan Mr John Davies, Talsarnau, ei ysgrifennydd, cofnodion, 1976-80, Pwyllgor Cymru yn erbyn Hiliaeth a sefydlwyd gan TUC Cymru yng Nghaerdydd yn ystod Gorffennaf 1976. Yn eu plith ceir papurau gweinyddol, cylchlythyrau, newyddleni a thafleni ynghyd â nifer o dorion o'r wasg.

Mudiad Cymod

Mae Ms Nia Rhosier, Meifod, yn garedig iawn wedi cyflwyno i'r Llyfrgell gofnodion helaeth, 1939-2001, y mudiad dylanwadol *Cymdeithas y Cymod yng Nghymru* a sefydlwyd gan George M. Ll. Davies a'r Parch. Richard Roberts. Yn eu plith ceir gohebiaeth, cofnodion pwyllgorau, cofnodion ariannol, cylchlythyrau, cylchgronau a thorion papur newydd.

Ychwanegiadau at Gasgliadau

Yn ystod y misoedd olaf hyn derbyniwyd ychwanegiadau at bapurau helaeth Mr Cynog Dafis, Mr Ron Davies a Mr Sain Ley Berry sydd eisoes yng ngofal yr AWG.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymholiadau ynglŷn â thelerau derbyn y papurau cyn ymweld â'r Llyfrgell.

Ceir gwaharddiad ar weld neu atgynhyrchu nifer o gasgliadau diweddar yr AWG.